OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 2989 (Cy.278)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *15 Tachwedd 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *10 Rhagfyr 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 78A(9), 78C(8) i (10), 78E(1) a (6), 78G(5) a (6)(**1**), 78L(4)(**2**) a (5) a 78R(1), (2) ac (8) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("Deddf 1990")(**3**) ac sydd bellach yn arferadwy o ran Cymru gan y Cynulliad Cenedlaethol(**4**), a chan yr adrannau hynny fel y'u cymhwysir gan Reoliadau Tir a halogwyd yn ymbelydrd (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006 ("y Rheoliadau Addasu")(**5**) o ran niwed, i'r graddau y mae niwed i'w briodoli i unrhyw ymbelydredd sy'n perthyn i unrhyw sylwedd, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) Mae adran 78G(6) yn darparu y caiff rheoliadau a wnaed o dan is-adran 78G(5) wneud y cyfryw ddarpariaeth o ran iawndal ag y caniateir ei gwneud gan reoliadau yn rhinwedd adran 35A(4) o Ddeddf 1990 o ran iawndal o dan yr adran honno.

(**2**) Diwygiwyd is-adran (4) o adran 78L gan Ddeddf Cymdogaethau ac Glân a'r Amgylchedd 2005 (p.16), adrannau 104 a 107, a Rhan 10 o Atodlen 5.

(**3**) 1990 p.43. Mewnosodwyd adrannau 78A i 78YC gan adran 57 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25). *Gweler* y diffiniad o "prescribed" ac o "regulations" yn adran 78A(9).

(**4**) *Gweler* erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo.

(**5**) O.S. 2006/2988 (Cy.277).